**Eitem ar yr agenda: 7**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD:** **19 GORFFENNAF 2004**

**ADRODDIAD:** **Y TRYSORYDD I'R AWDURDOD TÂN**

**PWNC:** **CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2003/04 A FERSIWN DRAFFT Y CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2004/05**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Derbyn crynodeb o waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2003/04

1.2 Cymeradwyo fersiwn Drafft y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2004/05

## 2. CYFLWYNIAD

2.1 Yn unol ag amodau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 1996, a osodwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1982, mae cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Tân i gynnal "cyfundrefn archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol"

2.2 Caiff y swyddogaeth Archwilio Mewnol ei chyflawni ar ran yr Awdurdod Tân gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'n swyddogaeth werthuso annibynnol ar gyfer adolygu gweithgarwch yr Awdurdod Tân fel gwasanaeth ar gyfer pob lefel reoli.

2.3 Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru (ATGC) yn rhagamodi y dylid cyflwyno adroddiad dan nawdd ATGC ar y cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac adroddiad ar gyflawniad mewn perthynas â'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

2.4 Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Tân a'r darparwyr archwiliadau mewnol i'w penderfynu cynnwys y cynllun archwilio. Fe ddylid paratoi'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Allanol.

2.5 Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yw archwilydd allanol yr Awdurdod Tân ar hyn o bryd.

2.6 Gellir rhannu'r gwaith archwilio mewnol yn fras i bedwar categori:-

(a) **Archwiliadau Cysondeb,** sydd wedi'u bwriadu i sicrhau:-

- Y caiff yr holl incwm sy'n ddyledus i ATGC ei gasglu, ei dderbynebu, ei ddiogelu, ei fancio a'i gofnodi yn y modd cywir.
- Y caiff pob taliad a wneir ei awdurdodi yn y ffordd gywir, o fewn y gyllideb ac yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol ATGC.

- Bod pob aelod o staff wedi cael ei benodi yn y modd priodol ac yn cael eu talu yn unol â thelerau ac amodau eu penodiad.
- Y ceir gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.
- Y caiff eiddo ac asedau eraill eu cofnodi a'u diogelu yn y modd cywir.

(b) Mae **Archwiliadau Systemau** wedi'u bwriadu i sicrhau bod pob system a gweithdrefn sydd ar waith yn cynnwys trefniadau rheoli digonol er mwyn atal twyll neu anghysonderau eraill, e.e. fe ddylai fod a wnelo o leiaf dau berson â phob gweithdrefn.

(c) **Archwiliad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.** Caiff hwn ei ddefnyddio i brofi hygrededd systemau cyfrifiadurol sydd ar waith a hefyd er mwyn cynorthwyo i ddod o hyd i dwyll ac anghysonderau drwy archwilio systemau cyfrifiadurol.

(ch) **Archwiliadau Contractau,** sy'n cynnwys gwerthuso darpar gontractwyr o safbwynt eu sefyllfa ariannol, archwiliad o drefniadau rheoli sydd mewn grym er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau ac archwiliad o sampl o gontractau cyfredol a rhai a gyflawnwyd eisoes gan gynnwys dilysu cyfrifon terfynol.

2.7 Caiff adroddiad ei baratoi yn dilyn pob archwiliad mewnol sydd:-

- Yn nodi diben, cwmpas, canfyddiadau a chasgliadau'r archwiliad.
- Yn gwneud argymhellion er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a adnabuwyd.
- Yn cynnwys cynllun gweithredu i arolygu'r broses o roi'r argymhellion ar waith ac i gynorthwyo efo'r broses honno.
- Yn ymorol am archwiliad dilynol o fewn amser rhesymol i adeg cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

## 3. ADOLYGIAD O WEITHGARWCH 2003/04

3.1 Yn ystod 2003/04 darparwyd 50 diwrnod archwilio yn unol â'r cynllun archwilio strategol. Cafodd tri o adroddiadau eu paratoi yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â :-

- **Pencadlys a Gorsafoedd Rhan Amser Rhanbarth y Canol** – gweithdrefnau prynu, incwm, stociau tanwydd a chofnodi manylion tanwydd, cofnodion cerbydau, rheoli tystysgrifau tân ac incwm sy'n deillio ohonynt, rhestrau eiddo ac arian parod ar gyfer Pencadlys y Rhanbarth a rhai gorsafoedd.
- **Y Storfeydd Canolog** – adolygiad o weithdrefnau ar gyfer archebu, derbyn, dosbarthu, prisio a diogelu stoc a gedwir yn y storfeydd.
- **Adolygiad o Dechnoleg Gwybodaeth** – adolygiad o drefniadau diogelwch yn ymwneud â chyfleusterau e-bost a Rhyngrwyd.

Hefyd, lluniwyd cynllun strategol ar gysondeb a'r gwaith archwilio systemau sydd i'w wneud gan yr Adran Archwilio ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2004 hyd at 31ain Mawrth 2008. Penderfynwyd ar ba mor aml fyddai pob archwiliad yn

digwydd ar sail asesu risg, gyda'r meysydd risg uchel angen mewnbwn archwilio bob blwyddyn.

3.2 Roedd y safbwyntiau'n gysylltiedig â'r gweithgarwch archwilio a fynegwyd yn yr adroddiadau'n dynodi bod nifer o welliannau wedi'u nodi a fod rheolaeth fewnol dda yn cael ei arfer mewn amryw feysydd. Fodd bynnag, adroddwyd fod rhai gwendidau'n bodoli gyda phrisio stoc, a rhai gwendidau mwy difrifol yn yr agwedd diogelwch o ran darparu cyfleusterau rhyngrwyd a'u gwneud ar gael i staff. Aed i'r afael â nifer o'r rhain eisoes ac mae camau wrthi'n cael eu cymryd i ymdrin â'r lleill.

3.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a adnabuwyd yn ystod yr arolygon archwilio fe wnaed 19 o argymhellion.

3.4 Dosbarthwyd cynlluniau gweithredu oedd yn gosod allan yr ymatebion a gytunwyd i argymhellion yr archwiliad gyda fersiynau drafft yr adroddiadau ac mae'r rhain wedi cael eu dychwelyd gan reolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub ynghyd â manylion y camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau y caiff yr argymhellion eu gweithredu.

3.5 Mae'r crynodeb o'r gweithgarwch archwilio'n dangos sut y bwriedir dosrannu adnoddau archwilio o ran diwrnodiau gwaith dros adrannau a gwasanaethau ac mae'n cymharu'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd yn ystod 2003/04 â'r cynllun.

## 4 BARN ARCHWILIO

4.1 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2003/04, barn yr Archwiliad Mewnol ar y mecanweithiau y mae'r rheolwyr wedi eu gosod mewn lle i arfer Rheolaeth Ariannol Fewnol yw eu bod yn ddigonol at gyfer y diben.

## 5 FERSIWN DRAFFT Y CYNLLUN ARCHWILIO AR GYFER 2004/05

5.1 Diben y cynllun archwilio blynyddol yw:-

- penderfynu ar flaenoriaethau archwilio ar y cyd efo Rheolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub
- pennu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau archwilio angenrheidiol
- ffurfioli gorchwylion archwilio
- adolygu gwaith archwilio'r flwyddyn flaenorol.

5.2 Mae'r cynllun archwilio wedi'i fwriadu fel canllaw yn unig. Gall newid mewn amgylchiadau neu ddigwyddiadau eraill anrhagweladwy arwain at wyro oddi wrth y cynllun. Cafodd y cynllun ar gyfer 2004/05 ei baratoi yn dilyn ymgynghoriad â Rheolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub.

5.3 Mae'r cynllun archwilio strategol, sy'n cynnwys dadansoddiad risg, wedi'i fwriadu i ymorol am bob agwedd ar weithgarwch GTaAGC o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys amser i weithredu ar argymhellion archwiliadau blaenorol.

## 6 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

Mae'r crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol ar gyfer 2003/04 fel a ganlyn:-

| | **Adran/Gwasanaeth** | **Diwrnodiau Arfaethedig 2003/04** | **Diwrnodiau Mewn Gwirionedd 2003/04** |
|---|---|---|---|
| 1 | PENCADLYS gan gynnwys y cynllunio, yr adrodd, y dilyniant, ac unrhyw geisiadau penodol gan y Gwasanaeth Tân | 20 | 10 |
| 2 | Rhanbarth y Canol | 5 | 8 |
| 3 | Cyflog Ymladdwyr Tân Rhan Amser – Rhanbarth y Canol | 5 | 8 |
| 4 | Ymladdwyr Tân Rhan Amser – FIN 8 electronig | 7 | 0 |
| 5 | Storfeydd Canolog | 5 | 9 |
| 6 | TG – Adolygiad Rhyngrwyd ac e-bost | 8 | 3 |
| 7 | Asesu systemau TG | | 4 |
| 8 | Menter Twyll Cenedlaethol | | 3 |
| 9 | Cynllun Strategol 4 Blynedd – ar sail risg | | 10 |
| | CYFANSWM DIWRNODIAU | **50** | **55** |

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2004/05 fel a ganlyn:-

| | **Adran/Gwasanaeth** | **Diwrnodiau Arfaethedig 2004/05** | **Prif Feysydd i Ymorol Amdanynt** |
|---|---|---|---|
| 1 | Ceisiadau penodol gan y Gwasanaeth Tân ac Achub | 7 | Yn ôl y gofyn. |
| 2 | Gwasanaeth Tân ac Achub – Cynllunio ac Adrodd | 5 | Adroddiadau blynyddol a chynlluniau ar weithgarwch archwilio |
| 3 | Archwiliadau Dilyniant | 2 | Argymhellion yr archwiliadau a fu |
| 4 | Cyflog Ymladdwyr Tân Rhan Amser –ardaloedd sirol y Fflint a Wrecsam | 6 | Adolygu'r gweithdrefnau cofnodi'r oriau a weithir, y troi allan, y ffioedd am ymarfer, hyfforddiant, cofnodion cerbydau a rhestrau eiddo ayyb |
| 5 | Menter Twyll Cenedlaethol | 2 | |
| 6 | Systemau Cyflogau –Llawn Amser | 20 | Adolygiad systemau ar y system gyflogau |
| 7 | Archebu ar-lein gan y storfa | 3 | Adolygu rheolaeth am y gweithdrefnau archebu ar-lein ayyb |
| | CYFANSWM DIWRNODIAU | **45** | |